
# Rydym yn sefyll dros ryddid, tosturi a chyfiawnder yn ein cyfnod o newid.

Gwnawn hyn trwy hyrwyddo a chynnal delfrydau a chyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws Cymru, Lloegr, a'r Alban.



## Nod ganolog

Mae cyfreithiau cydraddoldeb a hawliau dynol cryf yn amddiffyn pobl, ac mae data'n dangos beth sy'n digwydd i bobl yn ymarferol.

| Beth fyddwn ni'n ei wneud | Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni |
|---|---|
| Darparu cyngor arbenigol i lywodraethau ar newidiadau i'r gyfraith sy'n effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol.<br>Arwain y drafodaeth gyhoeddus ar sut i gydbwyso hawliau sy'n gorgyffwrdd a cheisio cael eglurder ar y gyfraith.<br>Gweithio gyda llywodraethau / seneddau yng Nghymru a'r Alban i gryfhau fframweithiau cydraddoldeb a hawliau dynol. | Cynnal a chryfhau amddiffyniadau cydraddoldeb a hawliau dynol yng nghynigion y llywodraeth ar ddiwygio cyfansoddiadol, diwygiadau i'r Ddeddf Hawliau Dynol ac ymatebion i'r pandemig. |
| Darparu cyngor arbenigol i lywodraethau ar gryfhau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a dyletswyddau penodol ar draws Prydain.<br>Gwella ymarfer a chryfhau cydymffurfiad gyda PSED trwy ganllawiau a gorfodi, gyda ffocws ar ein nodau blaenoriaeth.<br>Darparu strategaeth ranbarthol i Loegr i sicrhau bod yr agenda gwastatáu i fyny yn delio ag anghydraddoldebau yn dilyn y pandemig.<br>Cefnogi gweithrediad effeithiol y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru a'r Alban. | Gwella cydymffurfiad gyda rheoliadau PSED cyfredol, a chryfhau'r dyletswyddau PSED penodol i daclo anghydraddoldeb.<br>Gwella cydymffurfiad gyda'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yng Nghymru a'r Alban. |
| Darparu adroddiadau i'r Cenhedloedd Unedig ar gydymffurfiad y Deyrnas Unedig gyda Chyfamodau Hawliau Dynol Rhyngwladol, yn cynnwys y Confensiwn ar Ddiddymu Gwahaniaethu Hiliol.<br>Datblygu a chynnal ein traciwr hawliau dynol. | Gwella cydymffurfiad gyda goblygiadau rhyngwladol. |
| Monitro'r adolygiad annibynnol o Islamoffobia yn y Blaid Geidwadol ac ystyried camau gorfodi yn y dyfodol.<br>Defnyddio camau gorfodi strategol i daclo toriadau difrifol o'r Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. | Herio toriadau systemig a difrifol o hawliau. |



## Gwaith

Mae gan bobl ym Mhrydain fynediad cyfartal i'r farchnad lafur ac maent yn cael eu trin yn deg yn y gwaith.


| Beth fyddwn ni'n ei wneud | Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni |
|---|---|
| Cyhoeddi adroddiad ein hymchwiliad i anghydraddoldeb hiliol gweithwyr ar gyflogau isel yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys eu triniaeth yn ystod y pandemig.<br>Ymyrryd i ddatgelu neu ddelio ag effaith pandemig y coronafeirws ar gyfleoedd cyflogaeth a phrofiadau menywod.<br>Defnyddio camau gorfodi strategol yn erbyn arferion gwahaniaethol sy'n codi o'r pandemig.<br>Cyflawni ymchwil ar ddyfodol byd gwaith, yn cynnwys dadansoddiad o effeithiau pandemig y coronafeirws ar fenywod, yn rhan o'n rhaglen 'Ai yw Prydain yn Decach?'. | Deall a delio ag effeithiau gwaethaf y pandemig ar weithwyr. |
| Gorfodi'r Rheoliadau'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau. | Datgelu bylchau cyflog a chyflogwyr i gymryd camau i ddelio â nhw. |



## Mynediad at gyfiawnder

Gall pobl gael iawndal pan wneir cam â nhw a gallant gael treial teg yn y system cyfiawnder troseddol.

| Beth fyddwn ni'n ei wneud | Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni |
|---|---|
| Defnyddio ein pwerau, yn cynnwys camau gorfodi strategol, i ddelio â rhwystrau systemig i'r system fudd-daliadau ar gyfer hawlwyr anabl. | Mae pobl anabl yn gallu cael mynediad i'r budd-daliadau mae ganddynt hawl i'w derbyn. |
| Nodi a dwyn ymlaen cyfleoedd i wella mynediad i gyngor trwy sicrhau bod gan rai sy'n darparu cyngor wybodaeth a chyfarwyddyd gyfredol i ddarparu cyngor ar faterion gwahaniaethu a hawliau dynol.<br>Darparu cyngor arbenigol parthed rhwystrau o ran mynediad i gymorth cyfreithiol ar gyfer achosion gwahaniaethu. | Mae'r sector gynghori yn darparu cyngor o ansawdd uchel ar wahaniaethu a hawliau dynol.<br>Lleihau rhwystrau ar gyfer unigolion sy'n ceisio cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion gwahaniaethu. |
| Darparu cyngor arbenigol i ddwyn dylanwad ar welliannau ar gyfer pobl anabl ar draws y system cyfiawnder troseddol, yn cynnwys dedfrydu a moderneiddio'r llysoedd, yn unol â chasgliadau ein hymchwiliad. | Mae system y llysoedd yn darparu addasiadau rhesymol i bobl anabl. |
| Darparu cyngor arbenigol i lywodraethau ar strategaethau i ddelio â thrais yn erbyn menywod / cam-drin domestig ar draws Prydain, a defnyddio hanes rhywiol mewn treialon trais yn yr Alban.<br>Cyhoeddi tystiolaeth o brofiad dioddefwyr trais a throseddau rhyw eraill yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a Lloegr, mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Dioddefwyr. | Menywod a merched sy'n goroesi trais i gael gwell mynediad at gyfiawnder. |



## Addysg

Y system addysg yn hyrwyddo perthnasoedd da gydag eraill a pharch tuag at gydraddoldeb a hawliau dynol.

| Beth fyddwn ni'n ei wneud | Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni |
|---|---|
| Defnyddio gweithgaredd cydymffurfio a gorfodi strategol i sicrhau y gall plant gael mynediad i addysg, a bod ystyriaethau a goblygiadau cydraddoldeb yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu cymwysterau yn ystod ac yn dilyn y pandemig.<br>Defnyddio camau gorfodi strategol i sicrhau y gall plant a phobl ifanc sy'n wynebu gwahaniaethu mewn addysg, yn arbennig parthed pandemig y coronafeirws, yn gallu cael unioniad cyfreithiol. | Ysgolion a rheolyddion perthnasol, arolygiaethau ac ombwdsmyn yn cymryd camau i ddelio gydag a lliniaru effeithiau gwaethaf y pandemig ar addysg, ac yn rhoi ystyriaethau i faterion cydraddoldeb. |



## Sefydliadau

Triniaeth mewn sefydliadau a lleoliadau cadw yn parchu hawliau pobl.

| Beth fyddwn ni'n ei wneud | Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni |
|---|---|
| Darparu cyngor arbenigol i lywodraethau ar fewnosod cydraddoldeb a hawliau dynol; yn cynnwys yr hawl i fyw'n annibynnol, mewn polisi gofal cymdeithasol a diwygio.<br>Gweithio gyda rheolyddion, arolygiaethau ac ombwdsmyn, yn ogystal â chyrff cyhoedd a darparwyr gofal, i sicrhau bod cydraddoldeb a hawliau dynol yn cael ystyriaeth wrth ddarparu gofal cymdeithasol.<br>Cynnal ymchwiliad i weld a yw gofal cymdeithasol yn cynnal safonau cydraddoldeb a hawliau dynol. | Mae llywodraethau, cyrff cyhoeddus a darparwyr preifat yn parchu hawliau ac yn bodloni anghenion pobl hŷn ac anabl mewn cartrefi gofal neu sy'n derbyn gofal cymdeithasol. |
| Defnyddio amrywiaeth o ysgogiadau, yn cynnwys cyngor arbenigol a'n pwerau cyfreithiol, i leihau defnydd o gadw diogel ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.<br>Darparu cyngor arbenigol i ddylanwadu ar ddiwygio'r Deddfau Iechyd Meddwl. | Llywodraethau'n gweithredu i leihau'r nifer o bobl ag awtistiaeth ac anableddau dysgu mewn gofal ddiogel. |

# Blaenoriaethau corfforaethol



## Nod gwelliant corfforaethol

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn sefydliad effeithiol a chynhwysol sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gydag arbenigedd ac ystwythder i ddarparu ei gynllun strategol.

| Beth fyddwn ni'n ei wneud | Beth ydyn ni eisiau ei gyflawni |
|---|---|
| Parhau i weithredu ein Rhaglen Gynhwysiant, yn cynnwys rhaglen datblygu talent ar gyfer staff o leiafrifoedd ethnig.<br>Ail-leoli ein swyddfeydd yn Llundain a Chaerdydd gyda gwefannau sy'n addas i'r diben, tra'n symud mwy o rolau allan o Lundain. | Mae gennym ddiwylliant, gweithlu a seilwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae morâl yn gryf ac mae gan ein staff a Bwrdd hyder yn y sefydliad. |
| Cynllunio ein cyllid ar gyfer y dyfodol trwy drafodaethau Adolygiad Gwariant 2021 gyda Swyddfa'r Cabinet.<br>Ymgynghori ar a datblygu ein cynllun strategol 2022–25.<br>Gwella cynllunio a chyflawni, cynyddu galluedd a dealltwriaeth o ran cyflawni prosiectau a rheolaeth ariannol. | Mae gennym yr wybodaeth a systemau angenrheidiol i reoli ein hadnoddau yn effeithiol ac i gyflawni effaith. |
| Parhau i drawsnewid ein gwefan, i'w gwneud yn ffynhonnell gwybodaeth hygyrch ac awdurdodol.<br>Adeiladu ar ein gwelliannau i waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a datblygu strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu newydd i gefnogi ein cynllun strategol newydd. | Mae gennym lais cryf a byddwn yn cyfathrebu ein gwerth yn glir. Rydyn ni'n ymgysylltu gyda'n rhanddeiliaid mewn modd cydlynol ac effeithiol. |